# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016.

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 18 Mai 2016. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Gloria J. Tanner | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn hynod brysur i gynghorwyr Ward Mynydd-bach. Er fy mod wedi ennill rhywfaint o dir o ran problemau preswylwyr, mae ffordd bell i fynd a llawer o welliannau i'w gwneud o hyd.

Yn gynharach eleni, bu'n rhaid i'r Cynghorydd Byron Owen ymddeol oherwydd salwch.

Rwyf wedi cymryd lle Byron mewn cymorthfeydd cynghorwyr. O ganlyniad, rwyf wedi ymgymryd â dyletswyddau cymhorthfa 3 phenwythnos o 4. Mae mwy o breswylwyr wedi mynd i'r cymorthfeydd i drafod eu pryderon ac rwy'n croesawu hyn.

Parheais i weithio gyda swyddogion tai o Swyddfa Dai Treforys ac Opsiynau Tai.

Parheais i fod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd y Clâs a mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd.

Gweithiais yn agos gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a mynd i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ar bob cyfle.

Cyfarfodydd eraill yr euthum iddynt yw Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol y Clâs. Yn ddiweddar, rwyf wedi cyfrannu at y ganolfan gymunedol fel y gallent ailwampio'r ganolfan. Mae'r gwaith hwn yn hir-ddisgwyliedig iawn gan fod y ganolfan wedi bod yn edrych yn ddi-raen yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio y bydd ailwampio'r ganolfan gymunedol yn dod â mwy o grwpiau cymunedol i'n canolfan yn y dyfodol.

Rwyf wedi bod yn siomedig gyda'r diffyg cynnydd mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae prosiectau yn yr arfaeth a gobeithio y bydd y rhain yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos.

Rwyf wedi defnyddio'r 12 mis diwethaf i feithrin cysylltiadau da â phreswylwyr a busnesau'r gymuned. Euthum i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf yn rheolaidd.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 10 | / | 13 | 77 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 18 | 67 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 10 | / | 15 | 67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 2 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **38** | **/** | **56** | 68 | **%** |

**Cyfarfodydd Craffu:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Craffu Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 6 | / | 9 | 67 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Mewnfuddsoddi | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 7 | / | 12 | 58 | % |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Craffu Cadw Coed | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Safon Ansawdd Tai Cymru | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **16** | **/** | **29** | 55 | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu sy'n ystyried polisïau'r cyngor.
Roeddwn/Rwyf yn aelod o bwyllgorau sy'n ymwneud â gofal henoed, tai, trafnidiaeth a materion eraill.
Roeddwn/Rwyf yn aelod o weithgor sy'n edrych ar bolisi'r cyngor ynghylch ceffylau wedi'u clymu.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi bod yn gweithio'n galed gyda swyddogion tai ar osod atalfa yn y llety lloches yn Llys Penrhiw. Mae'r gwaith gosod i'w wneud yn fuan a bydd y preswylwyr yn cael eu maes parcio'n ôl.
Rwyf wedi trefnu i gysgodfannau bws gael eu gosod yn Rhodfa Rheidol a Heol Longview. Maent wedi'u harchebu ac rwy'n aros iddynt gael eu gosod.
Rwyf wedi ymgyrchu yn erbyn beiciau oddi ar y ffordd sy'n digalonni'n preswylwyr trwy rasio yn y ward yn gyflym. Mae'n rhwystredig iawn na allaf gyhoeddi cynnydd.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
04/11/2015 – Data Ysgolion (Hyfforddiant Llywodraethwyr) yn Ysgol Gynradd y Clâs.
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ymddiriedolwr Suresprung a mynd i gyfarfodydd.
Aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a mynd i gyfarfodydd rheolaidd yng Nghaerfyrddin.
Cefnogi grŵp Cyfeillion Ceffylau Abertawe, elusen sy'n helpu i ailgartrefu ceffylau i Noddfa Hillside o fangreoedd y cyngor.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol - £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 27/05/2016 |

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016.**